# Cynllyn Datblygu Lleol Abertawe


## Cyntaf Adroddiad Monitro Blynyddol – Cyfnod 2019-20

## Crynodeb Gweithredol

# Swansea Local Development Plan

## 1st Annual Monitoring Report – Period 2019-20

## Executive Summary




Cyngor Abertawe
Swansea Council

1. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Abertawe (CDLl) gan Gyngor Abertawe ar 28 Chwefror 2019 ac mae'n ffurfio'r cynllun datblygu ar gyfer Dinas a Sir Abertawe o dan ddarpariaethau Adran 38 (6) o'r Ddeddf Gynllunio. Fel rhan o broses y cynllun datblygu statudol, ar ôl mabwysiadu'r CDLl, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) yn nodi sut mae amcanion y cynllun yn cael eu cyflawni, sut mae'r strategaeth, polisïau allweddol, dyraniadau a gofynion isadeiledd yn cael eu cyflawni, a nodi unrhyw heriau, cyfleoedd a newidiadau cyd-destunol y mae'r cynllun yn gweithredu ynddynt. Y ddogfen hon yw AMB cyntaf CDLl Abertawe (AMB 1) ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020.

**Newidiadau Nodedig i Gyd-destun y Cynllun**

2. Heb amheuaeth, y newid mwyaf dwys mewn amgylchiadau yn ystod cyfnod yr AMB, sydd wedi effeithio'n aruthrol ar gymdeithasau ac economïau ledled y byd, fu pandemig coronafeirws COVID 19. Daeth dyfodiad firws COVID 19 i'r amlwg yn Chwarter olaf 2019-20, gydag achosion o drosglwyddo yn cynyddu'n gyflym ledled y DU rhwng canol a diwedd Mawrth 2020. Bryd hynny, cyhoeddodd Llywodraethau'r DU a Chymru fesurau cyfyngiadau symud caeth a oedd yn effeithio ar bron pob agwedd o fywyd, gan ddod â'r rhan fwyaf o weithgareddau i stop. Yn 2020-21, mae dyfodol yr economi a'r diwydiant datblygu yn ansicr iawn. Daw'r effeithiau hyn yn fwy eglur ymhen amser, a bydd angen ystyried hyn mewn perthynas â'r CDLl a monitro dilynol. Yn ogystal ag effeithio'n eang ar yr economi a bywyd cymdeithasol, ac yn sgil hynny, rhai o'r gweithgareddau sydd wedi'u monitro gan yr AMB yn rhan olaf 2019-20, mae'r pandemig hefyd wedi effeithio ar y gallu i adrodd yn effeithlon ar rai o ddangosyddion monitro'r AMB hwn. Mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar y gweithgareddau sy'n cael eu monitro (e.e. mae patrymau traffig wedi newid yn amlwg), y gallu i arolygu/cofnodi data (e.e. mae cyfyngiadau ar waith arolygu wedi effeithio ar amser monitro teithiau traffig a dadansoddiad o feddiannaeth canolfannau manwerthu), ac o bosibl, ar gywirdeb rhywfaint o'r wybodaeth sydd ar gael i fonitro'n effeithiol (e.e. yn sgil cysylltiadau yn y diwydiant datblygu yn cael eu rhoi ar ffyrlo). Disgrifir yr effeithiau hyn mewn rhannau perthnasol o'r ddogfen hon drwyddi draw, ac maent yn debygol o achosi anawsterau sylweddol wedi hyn, ac adroddir am hynny yn AMB 2 ar ddiwedd 2021.

3. O ran polisi a deddfwriaeth newydd, cafodd amrywiaeth o ganllawiau cenedlaethol newydd a diweddaredig a Llythyrau Gweinidogion eu cyhoeddi, a chyhoeddwyd deddfwriaeth newydd ar yr un pryd. Fe wnaeth cyfuniad o'r rhain newid y cyd-destun cynllunio y mae'r CDLl yn gweithredu ynddo. Y mwyaf nodedig o'r rhain oedd *Rhifyn 3 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (LlCD)*, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth

Cymru (LIC) ym Mawrth 2020. Mae'r ddogfen wedi addasu'r rhestr o ddangosyddion gofynnol ac allweddol, ac mae'n gofyn am ddull sylweddol wahanol o fonitro darpariaeth tai. Paratowyd a mabwysiadwyd y CDLl gan gyfeirio at fersiwn blaenorol y Canllawiau. Felly, mae diweddariadau gofynnol wedi'u gwneud i fframwaith monitro'r CDLl yn yr AMB hwn i sicrhau ei fod yn ystyried y canllawiau newydd yn llawn.

4. Cyhoeddwyd Llythyr Gweinidog yn ymwneud yn bennaf â gofynion AMB ar 7 Gorffennaf 2020. Cadarnhaodd hyn, yng ngoleuni pandemig presennol COVID-19, nad oedd yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gyflwyno AMB i LlC yn 2020. Er bod y gofyniad arferol wedi cael ei ddiddymu eleni o gofio'r amgylchiadau eithriadol amlwg, mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd monitro effeithiolrwydd y Cynllun ac mae'n ymrwymo i gynhyrchu AMB 1 a chyhoeddi'r wybodaeth at ddibenion cyfeirio.

**Crynodeb o Ganfyddiadau Monitro'r CDLl**

5. Mae Fframwaith Monitro'r CDLl yn seiliedig ar Bolisïau Strategol y Cynllun, â dangosyddion i fonitro effeithiolrwydd y polisïau a'r cynnydd o ran cyflawni dyraniadau a seilwaith. **Ar y cyfan, mae'r monitro wedi dangos fod strategaeth a pholisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nid oes achos am adolygiad.**

6. Mae cynnydd yn digwydd o ran sicrhau fod datblygiadau'n digwydd yn unol â strategaeth y Cynllun ac egwyddorion creu lleoedd ar ADS a safleoedd eraill sydd wedi'u neilltuo, ynghyd â seilwaith cysylltiedig a gofynion eraill datblygiadau.

**Crynodeb Monitro'r CDLl ar gyfer 2019-20 – CDLl 1**

| ASESIAD | CAM GWEITHREDU | Nifer y dangosyddion |
|---|---|---|
| Mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau'r Cynllun yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nid oes achos am adolygiad. | Parhau i Fonitro (Gwyrdd) | 122 |
| Mae dangosyddion yn dangos nad yw Polisïau'r Cynllun yn cael eu gweithredu fel y bwriedid. | Angen hyfforddiant (Glas) | 0 |
| Mae dangosyddion yn awgrymu'r angen am ragor o ganllawiau yn ychwanegol i'r rhai a nodir yn y Cynllun. | Angen CCA (Llwyd) | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| **Mae dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r Cynllun mor effeithiol ag y disgwylid yn wreiddiol.** | **Rhagor o Ymchwil (Melyn)** | **0** |
| **Mae dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi/polisïau'r cynllun yn cael eu gweithredu.** | **Adolygiad Polisi (Oren)** | **0** |
| **Mae dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y Cynllun yn cael ei gweithredu.** | **Adolygiad o'r Cynllun (Coch)** | **0** |

7. Mae darpariaeth monitro tai newydd wedi cael ei hintegreiddio yn yr AMB yn dilyn y newidiadau i ganllawiau LlC a pholisi cenedlaethol. Dylid nodi fod yr atodlenni monitro yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael, oherwydd mae pandemig COVID wedi effeithio ar gasglu gwybodaeth ystadegol gan ddatblygwyr.

8. Mae’r monitro’n dangos fod cyflawniadau tai wedi bod yn is na’r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (GBC) yn 2019-20, y flwyddyn gyntaf wedi mabwysiadu’r CDLl a’r cyflenwad newydd o dir preswyl sydd wedi’i gynnwys yn y Cynllun. Fodd bynnag, mae canllawiau LlC yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn eglur ynghylch yr angen i osgoi gwneud casgliadau ar sail data un flwyddyn, ac felly, mae’r trothwyon a fabwysiadwyd yn fframwaith monitro’r CDLl yn pwysleisio fod unrhyw ddangosyddion â deilliannau rhifiadol penodol (e.e. cyflawniadau tai/defnydd o dir ar gyfer cyflogaeth) yn gorfod cael eu mesur dros ddwy flynedd ddilynol.  Mae’r dull hwn yn caniatáu darlun cywirach a mwy dibynadwy o dueddiadau i’w datblygu a’u nodi’n glir. Bydd angen ystyriaeth ychwanegol o dueddiadau rhifiadol sy’n dod i’r amlwg a’r ffactorau sy’n sail iddynt yn AMB y dyfodol.

9. Mae cyflawniadau (397 uned) wedi bod yn is na’r GTBC yn 2019-20 yn bennaf oherwydd adeiladu a ddisgwylir ar rywfaint o ddyraniadau anstrategol a SD B a D ddim yn digwydd yn 2019-20 fel y rhagwelid. Fodd bynnag, mae taflwybrau tai safleoedd o 2020-21 ymlaen, sydd wedi’u ffurfio trwy ymgysylltu â datblygwyr a hyrwyddwyr safleoedd lle bo hynny’n bosibl (o ran effeithiau COVID a ddisgrifir uchod), yn dangos fod y cyflenwad tai yn fwy na’r hyn sy’n weddill i’w adeiladu, yn gronnus ac yn flynyddol dros weddill cyfnod y Cynllun. Rhagwelir y gwnaiff cyflawniadau gynyddu o 2020-21, pan fwriedir i ragor o ddyraniadau anstrategol ddigwydd ar safleoedd (cafodd sawl un gydsyniad cynllunio llawn yn 2019-20, yn cynnwys y rhai yn: Campws Townhill, Uplands; Upper Bank, Pentrechwyth; Fferm Tyrisha, Penygelli; Heol Brynafon, Penyrheol; Heol Brithwen, Waunarlwydd; a thir ger Rhodfa Pennard, Pennard; mae’r rhain yn ychwanegu at gynlluniau eraill a gafodd gydsyniad cyn hynny y rhagwelid hefyd y byddant yn digwydd). Bydd cyflawniadau yn cynyddu ymhellach wrth i safleoedd ADS sy’n mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn y camau olaf trwy gam ceisiadau cynllunio Materion a Neilltuwyd (SD B, C a D) yn cyflawni niferoedd sylweddol o gartrefi newydd, o fwy nag un allfa ar y safleoedd mawr hyn.

10. O ran tai fforddiadwy, adeiladwyd 199 o dai fforddiadwy trwy gyfrwng y system cynllunio yn 2019-20, 148 o dai rhent cymdeithasol a 51 o ddaliadaethau canolradd, a rhoddwyd caniatâd cynllunio yn y cyfnod 12 mis am 840 o unedau tai fforddiadwy.

11. Bydd cyflawniadau yn dal i gael eu monitro’n agos yn 2020-21. Mae ymgynghori â’r HBF wedi awgrymu fod darpariaeth tai yn debygol o gael ei heffeithio’n gyffredinol ledled Cymru gan argyfwng Covid-19, a mynegwyd y ffactorau dilynol:

- Potensial am oedi o ran yr amser sydd ei angen i gael cydsyniad cynllunio ac ‘amodau gollwng’, yn sgil pwysau a chyfyngiadau ar ddatblygwyr yn ogystal â’r awdurdod lleol.
- Potensial am nifer lai o safleoedd yn cael eu hagor/dod ar gael i’w cyflawni, oherwydd digwyddiadau cyfyngiadau symud cenedlaethol a lleol.
- Llai o gynhyrchiant ar safleoedd (mae’r HBF wedi awgrymu y gallai trefniadau gwaith newydd ynghylch cadw pellter cymdeithasol arwain at leihad o 30%).
- Y gallu i werthu cartrefi a lefel y diddordeb yn y farchnad oherwydd yr effaith ar amgylchiadau economaidd ehangach ac argaeledd morgeisi.

12. Mae’r Cyngor wedi gweithredu i gynorthwyo i ddarparu safleoedd tai. Mae wedi sefydlu tîm darparu i helpu i ddatblygu safleoedd i gyflawni’r gofyniad tai (o ran safleoedd datblygwyr preifat, a chronfa gyffredinol y Cyngor ei hun a chynlluniau Rhagor o Dai). Mae hyn yn cynorthwyo i nodi materion a gofynion safleoedd yn gynnar, ymgysylltu’n agos â datblygwyr i nodi materion cyffredinol a brofir yn ystod y broses ceisiadau cynllunio i helpu i wella effeithiolrwydd datblygu safleoedd, a chydweithio â datblygwyr ynghylch creu lleoedd, uwchgynllunio a materion dichonoldeb i gynorthwyo safleoedd i gael eu datblygu’n briodol. Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio â datblygwyr a hyrwyddwyr safleoedd i sicrhau’r cyflenwad tai newydd sydd wedi’i gynnwys yn y Cynllun mabwysiedig.

13. Mae cyfanswm y tir ar gyfer cyflogaeth sydd wedi cael caniatâd cynllunio ar ADS yn 2019-20 yn darparu 14% o ofyniad tir cyflogaeth 19ha y CDLl. Mae datblygu tir ar gyfer cyflogaeth wedi cyd-fynd â rhagolygon y CDLl, ag adeiladu depo DPD yn SD G Parc Busnes Felindre, a chynnydd sylweddol o ran cyflawni prosiect adfywio defnydd cymysg Abertawe Ganolog yng Nghanol y Ddinas. Nodir nifer o ddangosyddion cyd-destunol economaidd sy’n dangos canfyddiadau cadarnhaol ar gyfer y Sir. Fodd bynnag, dylid nodi fod rhywfaint o oediadau yn y data sydd ar gael a bydd angen i fonitro barhau i weld effeithiau pandemig COVID 19 sy’n dod i’r amlwg.

14. Mae monitro polisïau eraill y Cynllun, megis dylunio a chreu lleoedd, Seilwaith Gwyrdd, y Gymraeg, yr amgylchedd hanesyddol a diwylliannol, twristiaeth, cludiant, a diogelu iechyd y cyhoedd ac adnoddau naturiol, wedi dangos fod y meysydd polisi hyn yn cael eu gweithredu’n effeithiol, gan gyflawni amcanion creu lleoedd ac atal datblygu amhriodol. Mae nifer o newidiadau bychan ac esboniadau wedi cael eu gwneud (a’u hamlygu yn rhannau perthnasol yr AMB hwn) i fonitro dangosyddion i adlewyrchu newidiadau yn argaeledd a chyd-destun data; neu i gadarnhau beth mae’r dangosydd yn ceisio’i gofnodi.

15. Ar y cyfan, gellir casglu fod strategaeth y **CDLl a'i bolisïau a'i dargedau allweddol yn dal yn berthnasol, yn briodol ac yn gyfoes, ac mae cynnydd yn cael ei wneud tuag at eu cyflawni**. **Nid oes achos am adolygiad o'r Cynllun.**

16 Bydd monitro yn parhau yn ystod 2020 a 2021 yn erbyn y trothwyon penodedig ar gyfer AMB 2. Bydd angen i fonitro ystyried unwaith eto y newidiadau yn y cyd-destun y mae'r cynllun yn gweithredu ynddo, yn unol â chanllawiau LlC, yn enwedig o ran effeithiau pandemig COVID 19 ar y gallu i gasglu data cywir ac effeithiau hynny ar y gweithgareddau sy'n cael eu monitro.